*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mehefin 10 2025**

**COFNODION**

**37.6.25** **Presennol :- Cynghorwyr :-** Gwilym Jones, Glenda Murray, Carol Hayes, Michael Roberts, Dr Melfyn Edwards, Elfyn Lewis (Clerc): un aelod o'r cyhoedd

**38.6.25** **Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Alwyn Gruffydd, Jeremy Davies, Karena Owens, Trevor Jones, Llywelyn Rhys.

**39.6.25** **Adroddiad y Cadeirydd**

**Llwybr Llyn Bach.** Trafodwyd y bwriad i greu llwybr newydd ar hyd ochr Llyn Bach a gwella llwybr Cob Crwn. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno ceisiadau grant er mwyn gwneud gwelliannau i Gob Crwn Porthmadog i Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth Prydain a Cronfa Trawsnewid Tref Canol gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Maent yn y broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyfer y cynllun yn y gobaith y caiff y cais cynllunio ei gymeradwy. Ysgrifenwyd at Cyngor Tref Porthmadog i ofyn i'r cynghorwyr anfon llythyr o gefnogaeth er mwyn ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio.

**40.6.25** **Adroddiad y Clerc**

Adroddodd y Clerc newydd sut y bu'n defnyddio ei ddyddiau cyntaf yn y swydd yn dod yn gyfarwydd gyda'r pynciau roedd yn cael eu trafod ar y funud gan y Cyngor. Treuliodd amser yn dod yn gyfarwydd gyda'r system gyfrifiadur a darganfod lle roedd y dogfennau pwysig ar y system. Bu'n cysgodi'r cyn Glerc am gyfnod a fu'n help mawr ac roedd yn ddiolchgar am y cymorth a gafwyd. Bu'n treulio amser yn cerdded o gwmpas yr ardal er mwyn dod yn gyfarwydd a'r mannau hynny sydd yn cael eu trafod yn y Cyngor ar y funud. Mynychodd ddigwyddiad Llechi Lleni yn y Ganolfan Hamdden ym Mhorthmadog.

**41.6.25** **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 13 2025**

Cafwyd yn gywir yn ol cynnig y Cyng. Dr Melfyn Edwards. Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Llawn Mai 13 2025**

Cafwyd yn gywir yn ol cynnig y Cyng Dr Melfyn Edwards. Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**42.6.25** **Datgan diddordeb.**

Dim datganiad o ddiddordeb.

**43.6.25** **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C25/0354/44/DT ( wedi ebostio 13.5.25)**

Lleoliad / Location: Penrallt, 30 Awel Y Grug, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9GA

Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr ochr

Two storey side extension

Dim gwrthwynebiad.

**44.6.25 MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

- Ystyried derbyn a mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb Enghreifftiol Un Llais Cymru (gweler Gohebiaeth 8) neu mabwysiadu a derbyn yr un gerbron y Cyfarfod Blynyddol ar 13.5.25 (gweler dogfennaeth 13.5.25).
  Mynegodd y Cyng Carol Hayes bryder am y cynnwys, bod y Gymraeg yn wallus a hefyd bod y

ddogfen heb ei arwyddo gan unai y Clerc neu'r Cadeirydd.
Cynigiwyd i dderbyn y polisi ar ol i'r Gymraeg gael ei gywiro.
Cyng Gwilym Jones yn cynnig. Cyng Glenda Murray yn eilio.

**<u>MATERION I'W DWYN GERBRON :-</u>**

**45.6.25 Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig holi'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar gors Borth y Gest
Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cael diweddariad.
Cyng Gwilym Jones yn cynnig. Cyng Glenda Murray yn eilio.
**46.6.25 Cyng Michael Roberts –** cynnig holi Cyngor Gwynedd am sefyllfa'r peiriannau casglu arian ym meysydd parcio Borth y Gest a Heol y Parc.
Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cael eglurhad pan nad oes tal yn cael ei godi ar y meysydd parcio yma yn y Gaeaf. Yn enwedig o ystyried bod Cyngor Tref Porthmadog yn derbyn 10 y cant o'r arian.
Cyng Michael Roberts yn cynnig. Cyng Carol Hayes yn eilio.
**47.6.25 Cyng Gwilym Jones:-** Cynnig gofyn caniatâd Cyngor Gwynedd i osod llechen sydd wedi bod yn Ysgol Borth y Gest ar y wal wrth y pentir yn Borth y Gest.(Gweler y llun yn yr ohebiaeth)
Cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
Cyng Gwilym Jones yn cynnig. Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**48.6.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Gorffennaf 8 2025 = Mehefin 28 2025 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

**49.6.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb.**

**<u>RHESTR GOHEBIAETH /AROS AM ATEB MEHEFIN 2025</u>**

| DYDDIAD | AT BWY | YNGLŶN Â | ✉ ▪ ☎ 🖰 |
|---|---|---|---|
| | | **PWYLLGOR CYLLID AC EIDDO 28.1.25** | |
| 6.2.25 | HYWYN WILLIAMS C.G. | Holi ble mae'r arwyddion sydd wedi eu gaddo i goedlannau cae Bodawen<br>AIL-YRRU 10.4.25<br>GYRRU ETO 19.5.25 | 🖰<br>🖰<br>🖰 |
| | | **PWYLLGOR LLAWN 8.4.25** | |
| 11.4.25 | CYF.NAT.CYMRU | 313.4.25 cais i blannu blodau gwyllt yn eu maes parcio tu ôl i Premier Inn | 🖰 |
| | | **PWYLLGOR CYLLID AC EIDDO 29.4.25** | |
| 30.4.25 | R.J.ELECTRICS | C7.4.25 cais am bris 3 x 'coeden' Nadolig drydan | 🖰 |
| | | **PWYLLGOR LLAWN 13.5.25** | |
| 14.5.25 | NAOMI JONES | 11.5.25 Gwahodd i gyfarfod Mehefin | 🖰 |
| 14.5.25 | ARWEL L JONES | 34.5.25 caniatad i arwyddo Pen Telerau Iawndal Cae Chwarae Bodawen | 🖰 |
| 14.5.25 | CLWB CHWARAEON | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | 🖰 |
| 14.5.25 | UN LLAIS CYMRU | 6.5.25 cynrychiolwyr 2025-2026 | 🖰 |
| 14.5.25 | CARU PORT | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | 🖰 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.5.25 | AMGUEDDFA FORWROL | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | |
| 14.5.25 | CANOLFAN GYNGHORI | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | |
| 14.5.25 | Y GANOLFAN | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | |
| 14.5.25 | PWYLLGOR YR HARBWR | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | |
| 15.5.25 | YMDDIREDOLAETH REBECCA | 6.5.25 cynrychiolydd 2025-2026 | |
| 15.5.25 | UN LLAIS CYMRU | 7.5.25 cais am demplad Polisi Cydraddoldeb | |
| 15.5.25 | ALED GRIFFITH | 27.5.25 llythyr diolch | |
| 15.5.25 | HUW ELFED ROBERTS C.G. | 27.5.25 cais am rybudd sedd wag Tremadog | |
| 17.5.25 | PAULINE WILLIAMS | 25.5.25 cais i drefnu dathliad y Nadolig | |
| 17.5.25 | BRYN P JONES C.G. | 20.5.25 cais i ailedrych ar bolisi meinciau coffa | |
| 17.5.25 | ALUN L EVANS C.G. | 30.5.25 pryder am garafannau a thân ar dir W.H.R. | |
| 17.5.25 | IWAN AP TREFOR C.G. | 23.5.25 cais i reoli camper vans ar Pencei | |
| 18.5.25 | RHIAN WYN WILLIAMS C.G. CERI HUGHES THOMAS C.G. | 33.5.25 gwahoddiad i gyfarfod 8.7.25 i drafod safleoedd bysiau ac adborth am gynllun peilot llefydd aros swyddogol camper vans | |
| 18.5.25 | ATKINS HENEGHAN | 21.5.25 cais i adnewyddu bwrdd gwybodaeth wrth y stesion | |
| 23.5.25 | FITZPATRICK WOOLMER | 21.5.25 cais i adnewyddu bwrdd gwybodaeth wrth y stesion | |
| | | | |

**GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 50.6.25 | BARRY EDWARDS C.G | Cais i docio coed Bryn Coffa cyn mis Tachwedd<br>Y Clerc i roi y gwaith allan i tendar. |
| 51.6.25 | GETHIN V. JONES C.G. | Trosglwyddo Cae Pawb<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 52.6.25 | UN LLAIS CYMRU | SEDD WAG - Llythyr Mike Parry<br>Derbyn y wybodaeth |
| 53.6.25 | SION BRYN ROBERTS C.G. | Costau Clwb Ieuenctid<br>Cynnig bod Steffan Williams yn dod i gyfarfod Cyngor Tre Porthmadog i drafod y mater ymhellach. Mynegwyd pryderon bod Cyngor Gwynedd yn symud y baich ariannol i gynghorau tref. |
| 54.6.25 | R.J.ELECTICS | Ymateb i C7.4.25 pris Coed Nadolig trydan<br>Y Clarc i gysylltu gyda Richard Hollingworth a Chyngor Tref Dolgellau am fwy o manylion. |
| 55.6.25 | RICHARD WILLIAMS | Grant meysydd chwarae<br>Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i drafod y mater ymhellach. |
| 56.6.25 | UN LLAIS CYMRU | Gwella'r broses o weinyddu a gorfodi'r Dreth Cyngor.<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 57.6.25 | UN LLAIS CYMRU | Ymateb i 7.5.25 copi o Bolisi Cydraddoldeb enghreifftiol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gweler uchod 44.6.25 |
| 58.6.25 | ALUN EVANS C.G. | Ymateb i 30.5.25 carafannau a thanau ar dir W.H.R. Derbyn y wybodaeth. |
| 59.6.25 | EDWARDS NASH | Llythyr cais cyfethol i sedd wag ward Ynys Galch Penderfynwyd i gyfethol Edward Nash fel cynghorydd i ward Ynys Galch ar Gyngor Tref Porthmadog. Y Cyng Glenda Murray yn cynnig. Y Cyng Melfyn Edwards yn eilio. Derbyniwyd yn unfrydol. |
| 60.6.25 | HYWYN WILLIAMS C.G. | Ymateb i 25.5.25 arwyddion coedlannau Cae Bodawen Derbyn y wybodaeth |
| 61.6.25 | BETHAN PRICE | Diweddariad gan Hwb Iechyd Eifionydd Derbyn y wybodaeth |
| 62.6.25 | ALYS REES JONES C.G. | Cronfa Gwynedd Ni - manylion ac atodiad Ei ail-gyflwyno yng nghyfarfod Mis Gorffennaf. Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd |
| 63.6.25 | NATIONAL GRID | Cae Bodawen Y Clerc i gysylltu gyda'r cyn glerc am diweddariad. Trafod y mater yng nghyfarfod Mis Gorffennaf o'r Cyngor Tref. |
| | | |
| | | |

**64.6.25 MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | HSBC | Llog banc hyd at 19.5.25 | £ 48.77 |
| 2 | CAE PAWB | Rhent 2025 arian parod | £157.50 |
| 3 | CAE PAWB | Rhent 2025 sieciau | £105.00 |

**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc (M.R.) | Llinell ffôn a Wê Mai 2025 | £ 69.53 |
| 2 | Clerc (M.R.) | Cyflog Clerc Mai 2025 | £1,597.44 |
| 3 | H.M.R.C. | Treth Incwm Clerc Mai 2025 | £399.36 |
| 4 | Clerc (E.L.) | Lwfans gweithio o'r cartref 2025-2026 | £300.00 |
| 5 | D.Williams | Llafur a deunyddiau gosod ffrâm a pyst bwrdd gwybodaeth Madocks | £480.00 |
| 6 | Archwilio Cymru | Archwiliad allanol 2023-2024 | £200.00 |
| 7 | Xerox | Llogi llungopîwr 1.7.25 i 30.9.25 | £104.40 |
| 8 | Swyddfa Bost | 16 x stamp 2il ddosbarth - taliad cerdyn | £13.92 |
| 9 | Gardencraft | Llenwi tybiau blodau | £570.00 |
| 10 | Clear Councils | Primiwm Yswiriant 2025-2026 | £2,202.64 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)
Awdurdodwyd y taliadau uchod yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones. Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Elfyn Lewis
( Clerc )
13/06/2025

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*